


CYNGOR TREF LLANELLI

RHYBUDD TRETH CYNGOR

2020/2021

Bydd Cyngor Tref Llanelli yn praesept £950,000 i'w godi yn erbyn Trethdalwyr Llanelli er mwyn i'r Cyngor barhau i gynnal a gwella'r gwasanaethau sy'n bwysig i'n cymuned. Bydd eiddo Band D yn gweld cynnydd yn y Dreth Gyngor o £103.64 yn 2019-20 i £106.70 yn 2020-21.



HAMDDEN A CHWARAEON

Mae Cyngor y Dref yn darparu cyfleusterau gwych yn Stebonheath, cartref i Glwb Pêl-droed Tref Llanelli a Rygbi'r Gynghrair Raiders Gorllewin Cymru ac yng Nghanolfan Selwyn Samuel. Mae Trosglwyddo Asedau Clos yr Ysgol, Parc y Goron, Parc Havelock, Parc Morfa, Parc Nightingale, Parc y Bobl a Pharc Penylan o'r Cyngor Sir bellach wedi'i gwblhau ynghyd â nifer o is-brydlesi gyda chlybiau a sefydliadau chwaraeon lleol. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Cyngor Sir i gynnal Caeau Chwarae Penylan a trwy gyfraniad ariannol y Cyngor Dref ac aelodaeth o Grŵp Cydweithredu Parc Howard yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir i reoli Parc Howard ar y cyd, gan sicrhau bod y cyfleuster yn cael ei wella ac yn parhau i fod mewn buddiant cyhoeddus.



MYNWENT LLANELLI

Mae Cyngor Tref Llanelli yn berchen ar Fynwent y Box ar y cyd gyda Chyngor Gwledig Llanelli a thrwy'r bartneriaeth hon ac ein rôl ar Gyd Pwyllgor Ymgynghorol Claddu Llanelli, yn parhau i ariannu'r fynwent.

CEFNOGAETH GYMUNEDOL

Mae'r Cyngor yn berchen ac yn rheoli saith canolfan gymunedol sy'n cynnig cyfleusterau cymorthdaledig i bobl o bob oed. Yn ogystal mae'n cynghori a chynorthwyo grwpiau cymunedol ar ystod eang o bynciau ac yn darparu grantiau a nawdd i gefnogi gwaith llawer o glybiau, cymdeithasau a sefydliadau lleol. Mae ein Swyddog Datblygu Cymunedol yn parhau i weithio gyda llawer o sefydliadau ac yn darparu ystod eang o brosiectau ledled ein cymuned.

DIGWYDDIADAU A HYRWYDDIADAU

Mae Cyngor y Dref yn cyllido darpariaeth a chynhaliadaeth y basgedi blodau yng Nghanol y Dref, mae'r rhain yn wledd o liw drwy fisoedd yr haf. Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gydag Ardal Gwella Busnes Llanelli i gefnogi nifer o ddigwyddiadau yng nghanol y dref a drefnwyd yn ystod y flwyddyn sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Gŵyl Gerddoriaeth yr 80au, Gŵyl Fwyd a Gorymdaith Ceirw. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r Cyngor Sir a Chyngor Gwledig Llanelli i drefnu ac ariannu'r Carnifal Nadolig Blynyddol.

LLWYBRAU A GOLEUO

Mae'r Cyngor yn parhau i archwilio a thori ar hyd llwybrau cyhoeddus y dref ar ran y Cyngor Sir a bydd yn cynnal rhaglen o welliannau i rai o'r llwybrau. Mae'r Cyngor hefyd yn ariannu costau ynni a chynnal y goleuadau stryd ar y llwybrau hyn.

DINESIG, DEMORATIG A GWEINYDDOL

Dyma'r costau reoli cyfleusterau a gweithgareddau'r Cyngor yn y Gymuned ynghyd â phwyllgorau'r Cyngor a'r faeryddiaeth.

DIWYLLIANNOL A THREFTADAETH

Mae Cyngor Tref Llanelli yn berchen ar Tŷ Llanelly sydd wedi'i brydlesu i YTASG ar brydles hir. Mae Cyngor y Dref a'r Cyngor Sir yn parhau i gefnogi'r Tŷ i sicrhau bod yr adeilad rhestredig Gradd I yn cael ei chynnal i'r safonau uchel sydd eisoes yn cael eu gosod gan ei alluogi i fod yn ased sylweddol i ganol y dref a'i hymwelwyr.

2019/2020 £		2020/2021 £
61,381	Diwylliannol a Threftadaeth	61,398
421,549	Hamdden a Chwaraeon	477,410
60,000	Mynwent	66,500
208,357	Cefnogaeth Gymunedol	194,301
25,024	Digwyddiadau a Hyrwyddiadau	25,791
15,262	Llwybrau a Goleuo	13,295
220,143	Dinesig, Democratig a Gweinyddol	219,836
15,500	Prosiectau Cyfalaf	0
-100,760	Llog a Buddsoddiadau	-124,010
-16,456	Arian sy'n Weddill	15,479
£910,000		£950,000

Cysylltwch â ni os hoffech logi ystafell gyfarfod neu neuadd ar gyfer parti neu weithgaredd arall.

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â'r wefan neu dilynwch ni ar Facebook

Yr Hen Ficerdy,

Sgwâr Neuadd y Dref,

LLANELLI, Sir Gâr. . SA15 3DD

Ffôn: 01554 774352

e-bost: enquiries@llanellitowncouncil.gov.uk

Wefan: www.llanellitowncouncil.gov.uk